Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pennant
# Penybontfawr
# Croesoswallt
# Swydd Amwythig
# SY10 0NT

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Pennant

Lleolir Ysgol Pennant ym mhentref Penybontfawr ger tref Llanfyllin yn awdurdod lleol Powys. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae 70 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Tua 41% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref, ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 22% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg iawn i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â'r datblygiadau yn gysylltiedig â'r cwricwlwm.

Penodwyd y pennaeth dros dro i'w swydd ym mis Medi 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Medi, 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau effeithiol tuag at eu gwaith ac yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da. Un o gryfderau'r ysgol yw'r cwrteisi a'r parch y mae disgyblion yn dangos tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae'r parch ac ethos o gydweithio agos hefyd yn amlwg rhwng yr holl staff. Mae hyn, ynghyd â'r gweithgareddau dysgu diddorol y mae athrawon yn eu darparu ar eu cyfer, yn hybu agweddau cadarnhaol ymhlith y disgyblion tuag at ddysgu. Mae'r Gymraeg yn ganolog i holl waith yr ysgol ac mae pwyslais amlwg ar hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes a diwylliant yr ardal leol a Chymru. Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae, mewn amser byr, wedi cyflwyno strategaethau addas i sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol a safonau a lles disgyblion yn dda.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella uwch fedrau darllen disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y pynciau yng nghyfnod allweddol 2

A3 Datblygu medrau annibynnol y disgyblion, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion mewn iaith a datblygiad mathemategol yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae llawer ohonynt, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion mwy galluog, yn gwneud cynnydd da.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gyfathrebu ar lafar yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio ystod addas o eirfa wrth sgwrsio gyda'i gilydd a chydag oedolion. Mae llawer yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus iawn yn eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn cyfrannu'n bwrpasol yn y ddwy iaith mewn trafodaethau dosbarth. Mae medrau llafar y disgyblion sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus yn y cyfnod sylfaen. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod seiniau a llythrennau'n gywir ac, erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn darllen yn effeithiol ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant da yn y ddwy iaith. Maent yn cywain gwybodaeth o ffynonellau gwahanol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ymchwilio i hanes oes Fictoria. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn datblygu'r uwch fedrau darllen yn llwyddiannus, er enghraifft i'w galluogi i broffwydo beth allai ddigwydd nesaf mewn llyfr dethol neu ddethol gwybodaeth berthnasol trwy sgrinio a sganio.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn dangos cynnydd da o ran eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu ystod o frawddegau yn fedrus, er enghraifft wrth gofnodi eu gwaith ar y gofod. Maent yn defnyddio priflythrennau ac atalnod llawn yn bwrpasol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4, maent yn cyflwyno gwaith da ar hanes y boblogaeth ym mhentref Llangynog. Ym Mlwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu darnau pwrpasol ar hanes y tloty lleol ac yn cynhyrchu ymatebion creadigol ar y gerdd, 'Aberfan'.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth gadarn am gysyniadau mathemategol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn trafod gwaith siâp yn dda, gyda'r goreuon yn defnyddio termau fel triongl isoceles yn fedrus. Gall llawer drefnu rhifau negyddol yn hyderus wrth gyflawni tasgau yn ymwneud â thymheredd a defnyddio diagramau Venn a Carroll i ddosbarthu gwrthrychau yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn ac yn naturiol ar draws gweithgareddau thematig y cyfnod sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn trafod problemau mathemategol yn dda, gan nodi dulliau gweithredu addas. Mae'r rhan fwyaf yn dadansoddi data ar ffurf tablau, siartiau cylch a graffiau yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith ar ddata trychinebau enwog mewn hanes. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion bob amser yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon effeithiol ar draws elfennau eraill y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn cymhwyso eu medrau yn hyderus ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn cyflawni gêm i osod rhifau mewn trefn a defnyddio rhaglen prosesu geiriau yn hyderus i ysgrifennu stori. Maent yn chwarae rôl ar ffilm yn frwdfrydig wrth gynnal cyfweliad gyda chymeriadau o stori Gelert. Mae'r rhan fwyaf yn rheoli tegan symudol yn fedrus wrth ddilyn llwybr penodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau TGCh yn briodol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn cywain gwybodaeth o'r we a chyflwyno ffeithiau am gymeriadau hanesyddol fel Nansi Richards. Maent yn darllen taenlen a chronfa ddata yn hyderus wrth astudio hanes wyrcws Llanfyllin, er enghraifft. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn creu cyflwyniadau electroneg o ansawdd da. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad â Llangrannog, maent yn cynhyrchu ffilmiau syml ac yn defnyddio rhaglen godio i gynhyrchu darnau o gerddoriaeth yn fedrus.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod y staff yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Mae llawer yn gwneud defnydd buddiol o'r bocs pryderon fel dull o rannu gofidion gyda staff. O ganlyniad i waith y cyngor e-ddiogelwch, mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar y we. Maent hefyd yn cynnig arweiniad i ysgol arall leol yn y dalgylch ynglŷn â pheryglon ar y we.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi. Mae ymagweddau rhan fwyaf y disgyblion tuag at ddysgu yn dda. Maent yn dangos mwynhad at eu dysgu a pharodrwydd i drafod eu gwaith a'u llwyddiannau gydag ymwelwyr. Enghraifft dda o hyn yw eu balchder wrth sôn am eu gwaith yn ymwneud â mentergarwch a'u taith ddiweddar i Gaerdydd i seremoni dathlu llwyddiant.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol â'u cyfoedion mewn grwpiau a pharau ac yn dangos parch at farn eraill. Mae gan lawer ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn dechrau cael mwy o gyfleoedd i weithio'n annibynnol ac i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Fodd bynnag, nid yw cyfranogiad y disgyblion i hyn mor amlwg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o sut i fyw'n iach ac maent yn gwneud dewisiadau synhwyrol mewn perthynas â bwyd a gweithgareddau corfforol. Mae llawer yn manteisio ar y clwb 'dal i fynd' sy'n rhoi cyfle buddiol iddynt gadw'n iach yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth o weithgarwch corfforol mae'r ysgol yn ei gynnig, fel y clwb chwaraeon yn yr haf a'r clwb dawnsio yn y gaeaf. Mae'r llysgenhadon chwaraeon yn cynllunio nifer o weithgareddau buddiol ar gyfer gweddill y disgyblion yn ystod amser egwyl.

Mae'r disgyblion yn falch iawn o'r cyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain ac maent yn chwarae rhan amlwg ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyfeillion caredig yn

helpu ar iard yr ysgol pan fydd disgybl yn teimlo'n unig neu'n drist. Mae'r cyngor ysgol yn weithredol iawn yn cefnogi nifer o elusennau. Er enghraifft, yn ddiweddar, trefnodd y cyngor fore coffi yn yr ysgol i godi arian i elusen Macmillan. Caiff hyn oll effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion, sy'n creu awyrgylch dysgu llwyddiannus. Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol ac mae'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg yn ddyddiol. Mae'r staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion ac, o ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn ddysgwyr dwyieithog hyderus a chanddynt fedrau trawsieithu cadarn.

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn cydweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau bod disgyblion yn derbyn profiadau gwerthfawr. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn paratoi gwersi effeithiol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Maent yn cysylltu'r gwersi'n dda â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn holi cwestiynau treiddgar. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon bob tro'n darparu digon o gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau annibynnol.

Mae'r ysgol yn defnyddio strategaethau asesu amrywiol sy'n sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn erbyn y meini prawf llwyddiant. Mae bron pob athro yn cynnig adborth priodol ar lafar er mwyn symud y dysgu ymlaen, ac mae eu sylwadau ysgrifenedig, lle bo'n briodol, yn cynnig adborth buddiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith

Mae'r athrawon yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig ac mae hyn yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o falchder at eu hiaith, yr ardal leol a diwylliant Cymru ymhlith y disgyblion. Mae'r disgyblion yn cael ystod o gyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Maent yn astudio awduron, fel T. Llew Jones, yn ymchwilio i ddigwyddiadau pwysig fel trychineb Aberfan ac yn dysgu am hanes Mari Jones o'r Bala a'r Esgob William Morgan. Mae hyn oll yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth yn llwyddiannus iawn.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n fanwl i sicrhau bod dilyniant a pharhad yn natblygiad y medrau pwnc ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn cynllunio'n thematig ac yn dechrau cynnwys syniadau disgyblion yn y cynlluniau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cynllunio nifer o brosiectau cyffrous sy'n datblygu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r gwaith ar Oes Fictoria a thrychinebau yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu ystod eang o fedrau llythrennedd a TGCh. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn ymateb digon i syniadau a diddordebau disgyblion, nac yn ymestyn eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws holl elfennau'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n briodol. Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio'r ardaloedd allanol sy'n ymestyn y dysgu yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau ffocws a pharhaus diddorol sy'n cynnwys cyfleoedd addas i'r disgyblion chwarae rôl ac ymarfer eu medrau creadigol a chorfforol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn creu ethos cymhwysol a chartrefol ar gyfer y disgyblion ac yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad cadarn iddynt. Mae’r staff yn adnabod y disgyblion a’u teuluoedd yn dda iawn ac mae’r berthynas agos rhwng y cartref a’r ysgol yn gryfder. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae trefniadau trwyadl ar gyfer rheoli’r safle. Gwneir defnydd effeithiol o bartneriaethau allanol, er enghraifft yr heddlu, i sicrhau bod y disgyblion yn deall sut i gadw’n ddiogel ar lein a’r pwysigrwydd o beidio â chamddefnyddio sylweddau.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer olrhain cynnydd a lles y disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod gan y staff wybodaeth gyfredol am safonau’r disgyblion ac, o ganlyniad, maent, ar y cyfan, yn cynllunio rhaglenni dysgu perthnasol ar eu cyfer. Mae gan y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau dysgu unigol manwl ac mae’r ddarpariaeth yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn. Defnyddir cymorthyddion dysgu yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion unigol yn eu dysgu ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth. Mae’r cydweithio llwyddiannus gyda nifer o wasanaethau ac asiantaethau allanol yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a lles disgyblion penodol.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn effeithiol ac mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae’r ysgol yn cynnal siop ffrwythau, ac mae’r llysgenhadon chwaraeon yn annog disgyblion i gadw’n heini trwy drefnu gweithgareddau pêl, sgipio a rhedeg yn ystod y cyfnodau egwyl. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw’n iach yn rheolaidd.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae’r cyfnodau cyd addoli yn datblygu gwerthoedd ysbrydol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ysgol yn paratoi’r disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol trwy sefydlu grwpiau fel y cyfeillion caredig. Mae’r cyngor ysgol yn weithredol yn annog disgyblion i ddatblygu gwerthoedd moesol, er enghraifft trwy drefnu gweithgareddau codi arian at amryw o elusennau. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion yn eu paratoi’n dda i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch a gofal at eraill.

Mae’r trefniadau ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u diwylliant yn gryfder yn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf yn aelodau o’r Urdd a llawer ohonynt yn cystadlu’n rheolaidd mewn eisteddfodau. Maent yn canu plygain o gwmpas yr ardal leol adeg y Nadolig ac yn dysgu dawnsiau gwerin traddodiadol yn rheolaidd. Mae gan y disgyblion ystod o gyfleoedd effeithiol i ddysgu am chwedlau Cymreig, er enghraifft, hanes y Ferch o’r Sgêr a Melangell. Maent yn gwybod am hanes Nansi Richards a Hedd Wyn ac yn gwrando ar gerddoriaeth werin gyfoes.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir sy’n seiliedig ar godi safonau a sicrhau lles y disgyblion. Ers ei phenodiad, ac mewn byr amser, mae hi wedi cyflwyno strategaethau cadarn ar gyfer gwireddu’r weledigaeth honno. Mae'r rhain yn

cynnwys trefniadau i gryfhau llais y dysgwyr, dulliau newydd o gynllunio'r cwricwlwm a sicrhau cysondeb yn y modd mae'r staff yn gosod targedau ar gyfer codi safonau'r disgyblion.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n agos i gynnig profiadau dysgu gwerthfawr i'r disgyblion. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ac, o dan ei harweiniad, mae gan aelodau staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r trefniadau hunanarfarnu wedi eu gwreiddio'n addas ym mywyd a gwaith yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a'r safonau. Mae'r dadansoddiad o ddata cyrhaeddiad disgyblion ac adroddiadau monitro'r pennaeth dros dro gan amlaf yn ddadansoddol. Fodd bynnag, nid yw holl ganfyddiadau'r weithdrefn hunanarfarnu bob amser wedi eu seilio'n ddigon cadarn ar ystod o dystiolaeth uniongyrchol. O ganlyniad, nid yw'r ddogfen hunanarfarnu yn nodi'r holl gryfderau na'r meysydd i'w datblygu yn ddigon manwl ar draws pob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae cynllun gwella'r ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sydd yn nodi cyfrifoldebau'r staff ar gyfer gweithredu a monitro'r blaenoriaethau yn briodol. Mae'r camau gweithredu yn eglur a'r meini prawf yn fesuradwy.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Maent yn ymwelwyr cyson ac yn cyfrannu'n briodol at y trefniadau hunanarfarnu trwy gynnal teithiau dysgu, gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar lyfrau. Mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg yn datblygu'n briodol.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol. Mae amcanion gwella staff yn cysylltu'n glir â'u gofynion proffesiynol a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth dros dro yn cefnogi dysgu proffesiynol y staff yn effeithiol trwy drefnu hyfforddiant mewnol iddynt, a darparu cyfleoedd iddynt fynychu cyrsiau allanol ac i ymweld ag ysgolion eraill i rannu arfer dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu harferion addysgu ac ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ei staffio yn briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd y staff i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, defnyddir arbenigedd staff yn fedrus i addysgu pynciau fel addysg gorfforol a cherddoriaeth. Mae'r cymorthyddion dysgu yn cefnogi grwpiau o ddysgwyr ac unigolion yn effeithiol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'w lles a'u cyrhaeddiad.

Mae'r arweinwyr yn dyrannu cyllid sy'n eu galluogi i weithredu eu rhaglenni a gweithgareddau gwella yn briodol. Nid oes unrhyw ddisgyblion wedi bod yn gymwys i dderbyn y grant datblygu disgyblion yn ddiweddar.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2018